Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 56** **Haf 2021**



**'Gwawdio Crist' gan Cimabué** (Wikipedia)

# Y trysor coll

O dro i dro bydd hanes ar y newyddion am ddarganfyddiad neilltuol. Am ddarganfod rhyw drysor coll mewn man annisgwyl, o bosib. Rhyw grair hynafol, efallai. Megis y gist gladdu o'r Oes Efydd a ganfuwyd ym mynwent Capel Pen-llwyn, yn 1926.

Yn 2019 darganfuwyd trysor annisgwyl mewn lle annisgwyl.

Llun gan arlunydd o'r enw Cimabué (1240–1303) ydoedd, yn dangos Crist yn cael ei wawdio. Roedd Cimabué yn athro i Giotto de Bondone (a fu farw yn 1337) sy'n cael ei adnabod heddiw, yn syml, fel Giotto.

A dychwelyd at y llun, 20 x 28 cm, a ddarganfuwyd yn Compiègne yng ngogledd Ffrainc.

Bu'r llun yn hongian ers cyn cof uwchlaw'r ffwrn lle roedd gwraig oedrannus wedi ei gadw ac wedi edrych arno'n ddyddiol, ar hyd ei hoes, wrth goginio. Doedd neb wedi talu fawr o sylw i'r llun gan iddynt dybio mai eicon cyffredin ydoedd. Yn wir, bu bron i'r darlun gael ei daflu i'r sbwriel wrth glirio'r tŷ.

Cyn i'r darlun 'di-nod' a 'di-werth' gael ei werthu, amcangyfrifwyd y medrai gyrraedd rhwng £5.8 a £6 miliwn mewn ocsiwn. Fe'i prynwyd am $26.8 miliwn.

****

## Gweld a methu gweld

Dychmygwch y crair 800 mlwydd oed wedi ei leoli yng nghanol y mwg a'r stêm, yn ddi-nod, ond ar ganol bywyd teulu. Am ei fod wedi bod yno cyhyd, ni thalodd unrhyw un unrhyw sylw i'r darlun prin. Ac am ei fod yn grair 'crefyddol' oedd yn perthyn i wraig oedrannus oedd yn hoffi pethau 'crefyddol', nid ystyriwyd ei fod yn haeddu ailedrychiad gan genhedlaeth oedd wedi'i seciwlareiddio yn llwyr.

Wrth i ni ailagor ein capeli ar gyfer addoliad cyhoeddus, ni fydd llawer o bobl yn ein broydd yn ailafael gyda ni am nad oedd 'addoli' yn rhan o'u hagenda wythnosol cyn y Cofid.

Bydd eraill, efallai, yn ystyried y myrddiwn o gapeli diaddurn fel achos embaras cenedlaethol. Meddyliwch, meddant, y gallai ein rhagflaenwyr fod wedi bod mor grefyddol 'gul' a rhagrithiol. I eraill, creiriau hanesyddol o bwys yw'r gragen – ond nad oes erbyn hyn ryw lawer o ystyr i'r hyn sy'n digwydd ynddynt. Atgof o'r dyddiau a fu ydynt, dyna i gyd.

Bydd, fe fydd wylo ac ysgyrnygu dannedd pan werthir 'Gibea' a'i newid i 'Gabby's Place' a Bethania'n troi'n dŷ haf i 'Beth and Ian'! Ond prin iawn, mae'n debyg, fydd y bobl leol hynny a gefnodd ar eu capeli, fydd yn cydnabod mai eu cefnu hwy arweiniodd at anghynaliadwyedd yr achos yn eu broydd ac at werthu'r adeiladau dibris.

## Canfod gwerth

I'r wraig fu'n coginio'n ddyddiol yng nghysgod y darlun o Grist yn cael ei wawdio, yng nghanol y mwg, y stêm a'r prysurdeb o ofalu ac o fwydo'i theulu, nid gwerth y darlun i eraill a roddodd urddas iddo. Cynnwys a chanolbwynt y llun – dyna a roddodd werth iddi hi ac i genedlaethau o'i theulu cyn hynny.

Yr hanes am Waredwr, am yr Arglwydd Iesu Grist, a fflangellwyd ar ei ffordd i Galfaria, a wisgodd goron ddrain, er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn ... Iesu, yr un a orchfygodd angau drwy ei nerth ac a ysbeiliodd Uffern gref. Yr Arglwydd Iesu, yr hwn a dywalltodd ei Ysbryd Glân ar ei bobl ac a fydd yn dychwelyd yn farnwr y byw a'r meirw ynghyd. Byw ym mhresenoldeb ac yng nghanol y stori yma – dyna roddodd i'r darlun urddas, a gwerth, ac anrhydedd, iddi hi.

Ac nid eu pensaernïaeth, eu hanes, na'u lleoliad a'u gwerth ar y farchnad agored sy'n rhoi gwerth i'n capeli. Ni, y gymdeithas o bobl addolgar, sydd hefyd am blygu i ufuddhau i'r Arglwydd Iesu; ni sydd am foli ein Harglwydd a thystio mewn gair a gweithred i'w ras; ni sy'n dewis dod at ein gilydd sy'n rhoi gwerth i'w bodolaeth. Nid gwerth y farchnad sy'n rhoi gwerth ar y blwch ond harddwch, a thragwyddol werth yr ennaint gwerthfawr o'i fewn, sef addoliad pobl Dduw.

*Watcyn James*

# CRISTION BYCHAN

Efallai eich bod wedi gweld y bad achub tra'n mwynhau ar y traeth. Bydd y bad achub yn mynd allan i helpu pobl mewn trafferthion ar y môr.
Un tro, bu i Iesu dawelu storm tra ei fod hefo'i ffrindiau mewn cwch. Roedd pawb ofn ac wedi dychryn, ond fe lwyddodd Iesu, am mai Ef oedd Mab Duw, i dawelu'r storm a'u hachub. Dyma'r hanes yn Luc 8:22-25.

### Iesu'n tawelu storm

Un diwrnod dwedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Beth am i ni groesi i ochr draw'r llyn?" Felly i ffwrdd â nhw mewn cwch. Wrth groesi'r llyn syrthiodd Iesu i gysgu. Daeth storm ofnadwy ar y llyn ac roedd y cwch yn llenwi â dŵr nes eu bod nhw mewn peryg o suddo. Dyma'r disgyblion yn mynd at Iesu a'i ddeffro, ac yn dweud wrtho, "Feistr! 'dyn ni'n suddo feistr!" Cododd Iesu ar ei draed a cheryddu'r gwynt a'r tonnau gwyllt; a dyma'r storm yn stopio, ac roedd pobman yn hollol dawel. "Ble mae'ch ffydd chi?" gofynnodd i'w ddisgyblion. Roedden nhw wedi dychryn ac yn rhyfeddu at beth ddigwyddodd. "Pwy ydy hwn?" medden nhw, "Mae hyd yn oed yn rhoi gorchymyn i'r gwynt a'r dŵr, ac maen nhw'n ufuddhau iddo." ***[beibl.net]***




*Llun: Mari Gwent*




### Pwynt Gweddi

Diolch am y bad achub sy'n helpu pobl mewn trafferthion ar y môr. Diolch fod Iesu yn ein helpu ninnau hefyd beth bynnag ein hamgylchiadau. Amen

## Sudoku: Iesu'n tawelu'r storm



**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

**13 Medi** Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7.30 o'r gloch

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter: @capelygarn

Diolch i'r Gweinidog am ofalu bod ysgol Sul yn cael ei chynnal i blant yr ofalaeth dros Zoom yn ystod y misoedd diwethaf hyn. Roedd y sesiynau bywiog yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn. Bydd yr ysgol Sul yn cael seibiant dros wyliau'r haf.

### Lansio'r cylchgrawn *Cristion* ar ei newydd wedd

Nos Wener, 18 Mehefin, cafwyd noson arbennig dros Zoom i lansio'r cylchgrawn *Cristion* dan olygyddiaeth – Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys Parry. Un nodwedd newydd fydd tudalen arbennig a chystadleuaeth i'r plant – *Cristion Bychan*. Mae'n werth cael cip ar y wefan newydd hefyd – cristion.net – a fydd yn cynnwys eitemau ychwanegol megis recordiadau o gyfweliadau, ac yn y blaen. Am wybodaeth bellach ynghylch tanysgrifio, ewch i: https://www.cristion.net/tanysgrifio.

## Ailymgynnull i addoli yn eglwysi'r ofalaeth

Bellach, mae drysau pump o gapeli'r ofalaeth wedi ailagor ar gyfer cydaddoli. Cynhaliwyd y gwasanaethau cyntaf yng Nghapel y Garn a Rehoboth ar 16 Mai, yng Nghapel Seion a Phen-llwyn ar 23 Mai, ac yng Nghapel Madog ar 30 Mai. Roedd yr oedfaon hyn i gyd dan ofal ein Gweinidog, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei arweiniad wrth inni ddychwelyd i'r gwahanol gapeli.

Cynhaliwyd yr asesiadau risg priodol ym mhob capel, a gwnaed y trefniadau priodol gan ddilyn Canllawiau Covid-19 yn fanwl, er ceisio sicrhau diogelwch y rhai sy'n mynychu'r gwasanaethau.

Yn ogystal â'r gwasanaethau hyn, mae'r Gweinidog wedi bod yn paratoi myfyrdod wythnosol. Mae'n cael ei gyhoeddi ar ffurf ysgrifenedig yn *Cenn@d*: ewch i wefan cennad.cymru. Ac mae hefyd yn cael ei uwchlwytho ar sianel YouTube Capel y Garn.

### Capel y Garn

Braf oedd gweld drysau'r capel ar agor unwaith eto fore Sul, 16 Mai, a gallu croesawu aelodau'r gynulleidfa ôl i gydaddoli. Roedd pethau ychydig yn wahanol, wrth gwrs – rhaid cadw pellter wrth gyrraedd, diheintio'r dwylo, eistedd ymhell oddi wrth ein gilydd a gwisgo mwgwd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Alan Wynne Jones a'r swyddogion eraill am eu gofal gyda'r trefniadau.

Ond, wrth i seiniau'r 'Sanctus' atseinio ar ddechrau'r oedfa, gyda Kathleen ar yr allweddellau, crëwyd naws addolgar arbennig a deimlwyd drwy gydol ein haddoliad, dan arweiniad ein Gweinidog. Cytunai pawb mai da yn wir oedd inni fod yno, a gallu dod at ein gilydd fel cymdeithas o gyd-addolwyr unwaith eto.

Erbyn hyn, rydym wedi cynefino'n dda â'r drefn – ac edrychwn ymlaen at allu cydganu eto yn y dyfodol agos.

Roeddem yn arbennig o falch o allu croesawu ein cyn-weinidog, y Parch Wyn Morris, i bulpud y Garn unwaith eto fore Sul, 13 Mehefin, a chafwyd oedfa fendithiol dan ei arweiniad.

## Capel Seion

Bore Sul, 23 Mai, agorwyd Seion am y tro cyntaf ers dros flwyddyn. Bu'r paratoadau yn drylwyr iawn. Diolch i Amy a Tom, deiliaid y Tŷ Capel, am lanhau a sicrhau bod y drysau'n cael eu hagor yn ddyddiol am wythnos cyn y dyddiad agor. Bu Wil Davies hefyd yn ymwelydd cyson â'r adeilad i sicrhau fod popeth yn ddiogel. Daeth criw o hanner dwsin ynghyd i fesur y metrau, gosod y tâp ar y seddau gwaharddedig ac arwyddion lliwgar i roi cyfarwyddiadau clir ym mhob man, rhoi mygydau a hylif hylendid yn y fynedfa a blodau ffres, serchog yn y cafnau tu allan i'r capel. Llanwyd y ddogfen asesu risg a'i hanfon i'r Parchedig Carwyn Arthur a chafwyd y caniatâd swyddogol i ailagor.

Petrusgar oedd rhai i fentro, eraill yn rhy fregus i ymuno, ond chwalwyd yr ofnau a theimlwyd cynhesrwydd a bendith Duw ar yr ailymgynnull. Dan arweiniad ein bugail, y Parchedig Watcyn James, cafwyd oedfa amserol a neges gobeithiol i godi ein calonnau at y dyfodol, ac mae'r oedfaon yn parhau. Gan nad oedd modd defnyddio'r gegin na chymdeithasu y tu allan i'r capel, aethom i gyd am goffi a chinio i'r Halfway yn Pisga a derbyn croeso mawr yno gan Ann a'i thîm.

*Ina Tudno Williams*

## Pen-llwyn

Roedd Sul, 23 Mai, yn ddiwrnod arbennig iawn i ni yma ym Mhen-llwyn – dyma'r Sul roeddem i ddychwelyd i addoli yn y capel wyneb yn wyneb am y tro cyntaf. Ar ôl paratoi yn drylwyr ymlaen llaw, teimlem ei bod yn eithaf diogel i wahodd ein cyd-aelodau yn ôl. Er mai fel cwrens mewn cacen cybydd oeddem y tro yma, mewn adeilad mor eang, roedd neges Dr Watcyn James, fel arfer, mor berthnasol a bendithiol ag erioed i bob un ohonom.

Diolch yn fawr am a gafwyd ar Zoom dros y flwyddyn ddiwethaf; roedd yn golygu llawer o waith caled i'n Gweinidog ac i eraill o fewn yr Ofalaeth. Roedd yn hyfryd cyfarfod ag aelodau o eglwysi eraill – gwelwn eisiau ein ffrindiau ar y we, a theimlem fod addoli fel tyrfa gref yn obeithiol ac yn rhoi boddhad a chysur.

Ein gweddi a'n deisyfiad yw y bydd ein ffrindiau ar hyd yr Ofalaeth yn gweld eu ffordd yn glir, ar waethaf y Covid creulon yma, i ddychwelyd i'w heglwysi ac ymuno yn y gwasanaethau. Ond rhaid cofio nad 'ein hewyllys ni ond ei ewyllys Ef a wneler' ac mai 'Ein Tad sydd wrth y llyw' bob amser. Pleser yw cael ailgymdeithasu a lledaenu'r Gair yn ein *patch* bach ni ein hunain o Gymru.

*Heulwen Lewis*



## Gweddïau'r haf

Dduw Dad hollalluog, diolchwn i ti ar ganol blwyddyn
am dy ffyddlondeb drwy gydol y misoedd a fu.

Yn ein llawnder a'n llwyddiant;

yn nhymor yr hau, ac ar ddechrau'r cynaeafu yn ein gerddi;

yn ein hofnau a'n hansicrwydd,

buost i ni yn amddiffynfa ac yn gadernid.

Yng nghanol goleuni a gwres a haul yr haf, rydym am ymostwng
i'th geisio ar gyfer yr hyn sy'n weddill o'r flwyddyn.

Yn wir, rydym am ymostwng i geisio dy arweiniad ar gyfer yr hyn
sy'n weddill o'n hoes.

Arglwydd, fel y cyfododd yr heulwen ac iechydwriaeth yn ei esgyll,
caniatâ i'th oleuni di lewyrchu yn fy mywyd i,

ym mywyd fy nheulu a'm câr,

ym mywyd ein broydd,

ym mywyd ein cynulleidfaoedd.

Arglwydd Iesu Grist, yr hwn wyt yn oleuni'r byd, a wnei di ddinistrio'r tywyllwch sydd o'm cwmpas? A wnei di ddifetha'r tywyllwch sydd ynof wrth i mi (wrth i ni) geisio dyfalu beth sydd yn disgwyl amdanaf yn nhywyllwch calendrau ein dyfodol?

Caniatâ, O Arglwydd Iesu Grist, i'th oleuni lewyrchu yn fy mywyd.

O! Ysbryd Glân, dwg fi i gymundeb â thi. Er dy fod yn anweledig a'th lwybrau'n fynych yn ddirgel, caniatâ i minnau'r ymwybyddiaeth o lewyrch ac o gynhesrwydd dy bresenoldeb. Pâr bod llawenydd dy wenau'n erlid ofnau o bob math o'm calon.

Ysbryd Glân, a wnei di fy arwain at Iesu? Arwain fi, cyfeiria fy nghamau, a thywys fi i dy adnabod a'th ganmol a'th fwynhau.

Ac wrth i'n cynulleidfaoedd geisio adeiladu wedi hirlwm Cofid-19, a wnei di roi i ni weledigaeth newydd ohonot dy hun ac o'th alwad arnom?

Wrth adnabod dy bresenoldeb, ac wrth glywed dy alwad arnom o'r newydd, a wnei di gyfrannu i'n heneidiau blin orfoledd newydd wrth i ni ryfeddu y cawsom ein galw yn blant i Dduw?



Arglwydd Dduw,
yn Dad, yn Fab, yn Ysbryd Glân, llewyrcha dy oleuni arnaf fi. Llewyrcha arnom ni.

Er mwyn Iesu Grist,

Amen.

## Eglwys fy mreuddwydion

Hon yw eglwys fy mreuddwydion:
eglwys y galon gynnes,
y meddwl agored,
yr ysbryd mentrus;
yr eglwys sy'n gofalu,
sy'n iacháu bywydau briwedig.
sy'n cysuro'r hen,
ac yn herio'r ifanc;
nad yw'n gweld rhaniadau diwylliant na dosbarth;
dim ffiniau daearyddol na chymdeithasol;
yr eglwys sy'n holi yn ogystal â honni,
sy'n edrych ymlaen yn ogystal ag yn ôl;
eglwys y Meistr
eglwys y bobl,
mor uchel â delfrydau Iesu,
mor isel â'r person mwyaf gostyngedig;
eglwys sy'n gweithio,
eglwys sy'n addoli,
eglwys sy'n denu,
eglwys sy'n dehongli'r gwir yn nhermau'r gwir,
sy'n ysbrydoli dewrder ar gyfer y bywyd hwn
a gobaith am y bywyd a ddaw;
eglwys ddewr,
eglwys pobl dda,
eglwys y Duw byw!

*Addasiad Anna Jane Evans o'r gerdd 'The Church of my Dreams' gan John Milton Moore*
*(Cyhoeddwyd gyntaf yn Agora, cylchgrawn digidol Cristnogaeth21, rhif 44, Mawrth/Ebrill 2021)*

# Capel y Garn

## Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 4 | Parch Richard Lewis |
| 11 | Oedfa yng ngofal yr aelodau |
| 12 | Pwyllgor Cymdeithas Lenyddol y Garn<br>am 7 o'r gloch, dros Zoom |
| 18 | Gweinidog |
| 25 | Gweinidog |

## Awst

| | |
|---|---|
| 1 | Gweinidog |
| 8 | Parch Eric Greene |
| 15 | Dafydd Iwan |
| 22 | Beti Griffiths |
| 29 | Lyndon Lloyd |

## Medi

| | |
|---|---|
| 5 | Parch John Roberts |
| 12 | Gweinidog |
| 19 | Gweinidog |
| 26 | I'w drefnu |

Bydd yr oedfaon yn cael eu cynnal yng Nghapel y Garn – hyd y gellir trefnu ar hyn o bryd, a bydd cyfeillion Capel Noddfa yn cydaddoli â ni fel arfer yn ystod mis Awst.

# Bob yn Un neu ar y Cyd

Mae'r un mis ar bymtheg diwethaf o fyw dan glo wedi fy mwrw i i mewn i fi fy hunan fwy nag erioed o'r blaen; synnwn i ddim nad yw hynny'n wir am y rhan fwyaf ohonon ni.  Mae geiryn bach hollbwysig wedi diflannu o'n bywydau ni, sef **cyd,** y geiryn bach sy'n dynodi ein bod ni'n **cyd**-fyw, yn byw ein bywydau ar y **cyd.**

Mae un ar bymtheg o emynau yn *Caneuon Ffydd* yn dechrau gyda'r geiryn **Cyd**, ond fu dim **cyd-**gyfarfod na **chyd-**ganu na **chyd**-uno na **chyd**-fwyta na **chyd**-drafod i ddod i **gyd-**undeb, na **chyd**addoli na **chyd**weddïo gyda'n **cyd**-aelodau ers tro byd. Bob yn **un** rydyn ni wedi gorfod gwneud popeth, pob **un** yn ei ffrâm neu ar ei sgrin fach ei **hun**an. Mae hi wedi bod yn amser **un**ig i lawer ohonon ni.

Yn ystod yr amser yma dw i wedi dod i sylweddoli cymaint dw i'n dibynnu ar bobl eraill – i **gyd**-drafod meddyliau a syniadau a gobeithion a gofidiau. Dw i wedi fy nal fy **hun**an ar adegau yn dyheu am gael sgwrs â rhywrai heblaw ni'n **hun**ain, am beidio â bod mor **hun**an-ganolog.

Allaf i ddim cofio pam – syrffed o bosib – ond fe edrychais am y gair **hun** yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru un diwrnod, a dyma'r esboniad welais i: "y rhifolyn *un* ac *h* ymwthiol o'i flaen".

Tynnodd hynny wên i fy wyneb. Dyna ni, pob **un** ohonon ni, i gyd yn **un**igolion **un**igolyddol, ac wedyn, mewn ysfa o **hun**an-bwysigrwydd efallai, gwthiodd yr "**h**" ei ffordd i mewn, a throi pob **un** yn **hun**, ac wedyn yn **hun**an. Mae rhywbeth yn addas iawn yn y broses – fe wyddom i gyd mai **un** ymhlith llawer o **un**au eraill ydyn ni, bob copa walltog ohonon ni,  ond ein bod ni'n fwy na hynny i ni'n **hun**ain. Mae'r  "**h**" ymwthiol fel pe'n rhoi stamp ar **un** pob **un** ohonon ni. Felly, dyna fi, wedi esbonio'r daith o'r **un** i'r **hun**.

Mae miloedd o’n cyd-Gymry mewn parthau deheuol na newidiodd eu hynganiad i adlewyrchu’r **“h” hun**an-bwysig ymwthiol honno; fentrwn ni ddweud eu bod nhw’n llai **hun**an-ganolog?

Un diwrnod, daeth cyn-aelod o ddosbarth Cymraeg i Oedolion ar y ffôn a gofyn ai’r un gair yw’r **hun** (fi) â’r **hun** (cwsg). Sicrheais i hi yn hyderus nad oedd dim cysylltiad rhyngddyn nhw.

“Ond onid ydych chi yn eich byd bach **un**igol chi’ch **hun**an pan fyddwch chi’n cysgu, yn huno, yn eich hun?” holodd hithau’n ddadleuol, ac yn ddigon rhesymegol, tybiais. Mae’n wir dweud ein bod ni i gyd yn syrthio’n ddwfn i mewn i ni ein **hun**ain wrth fynd i gysgu.

Aeth yr holwraig yn ei blaen, “Ac yna, pan fyddwch chi’n dihuno, fe fyddwch chi’n dod allan ohonoch chi’ch **hun**an ac yn ôl at eich **cyd**-ddyn.” Gwrandewais yn astud ar ei damcaniaeth. “Allaf i ddim peidio â theimlo,” mynnodd cyn gorffen, “fod y gair di-**hun,** fel yn ‘ar ddi**-hun**’, yn cyfateb i’r ansoddair ‘*selfless*’ yn Saesneg.”

Fyddai dim un iethegydd yn cytuno â hynny, wrth gwrs, ond rhaid cyfaddef ei fod e’n gysylltiad gogleisiol.

Allaf innau ddim gwadu nad ydw i’n teimlo fel petawn i wedi bod yn **hun**o drwy’r un mis ar bymtheg diwethaf yma, a mod i’n hen barod bellach i ddi-**hun**o a **chyd**-brofi bywyd gyda fy **nghyd**-ddyn – yng ngeiriau moto Cymdeithas Pêl-droed Cymru: “Gorau Chwarae **Cyd**-chwarae”.

*Llinos Dafis*





## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Brynhawn Mercher, 28 Ebrill, trefnodd ysgrifenyddes Cymdeithas y Chwiorydd, Shân Hayward, i'r aelodau gyfarfod yn yr awyr agored. Daeth pymtheg ohonom ynghyd i fwynhau paned a chacen a chlonc yng Nghrefftau Pennau, a mawr oedd y llawernydd o weld hen ffrindiau am y tro cyntaf ers blwyddyn a mwy, gan barchu gofynion y pellter cymdeithasol wrth gwrs.



## Capel y Garn

## Llongyfarchiadau:

i Meleri Jones ar ei phenodiad yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Gyfun Penweddig – croeso 'adre', Meleri, a phob dymuniad da;

i Glyn a Gill Saunders Jones ar enedigaeth wyres fach, Gwenno Jên, merch i Siôn a Catrin, a chwaer fach i Efa ac Osian.

## Pedwarcanmlwyddiant
## Salmau Cân Edmwnd Prys (1621)

Bedair canrif union yn ôl fe gyhoeddwyd gwaith hynod bwysig yn hanes emynyddiaeth a chrefydd Cymru, *Llyfr y Psalmau, wedi eu cyfieithu a'i cyfansoddi ar fesyr cerdd yn Gymraeg*, sef Salmau Cân Edmwnd Prys, archddiacon Meirionnydd. Am tua dwy ganrif ar ôl eu cyhoeddi, y Salmau Cân oedd prif lyfr emynau Cymru: dyma garreg sylfaen ein hemynyddiaeth. Er mai dim ond dwy o'r Salmau Cân a gynhwyswyd yn *Caneuon Ffydd*, yn hanesyddol fe fu Salmau Prys yn bwysig yn addoliad ymneilltuwyr Cymru yn ogystal â'r eglwyswyr. Yn y llyfr emynau a gyhoeddodd ein henwad ni a'r Wesleaid yn 1927 fe gynhwyswyd 40 o'r Salmau Cân; yn ein llyfr emynau cyn hynny fe geid 100 ohonynt. Arwydd o fri'r Salmau Cân ymhlith yr ymneilltuwyr oedd bod amryw gasgliadau wedi eu cyhoeddi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn cynnwys cyfuniad o Salmau Edmwnd Prys ac emynau Pantycelyn.

Creadigaeth y Diwygiad Protestannaidd oedd canu cynulleidfaol. Yn yr oesoedd canol yr offeiriaid neu'r côr, nid y gynulleidfa, a ganai, ac yn Lladin y gwneid hynny. Yn sgil y syniad o offeiriadaeth yr holl saint y datblygodd yr arfer o ganu cynulleidfaol. Cyfieithodd Martin Luther emynau o'r Lladin, cyfansoddodd emynau gwreiddiol ei hunan, a hefyd emynau wedi eu seilio ar rannau o'r Beibl, gan gynnwys y Salmau. Ond John Calfin yng Ngenefa a fu'n gyfrifol am fri Salmau Cân. Credai ef yn gryf y dylai'r hyn a genid yn y gwasanaethau fod yn seiliedig ar yr Ysgrythur. Cyhoeddwyd sawl mydryddiad Ffrangeg o rai o'r Salmau cyn cyhoeddi Sallwyr cyflawn yng Ngenefa yn 1562, gwaith Clément Marot a Théodore Beza. Dyma'r llyfr emynau Protestannaidd mwyaf poblogaidd a fu erioed.

Yn ystod teyrnasiad y frenhines Gatholig Mari (1553–8) daeth rhai o'r alltudion Protestannaidd Seisnig mewn dinasoedd fel Frankfurt a Genefa yn gyfarwydd â chlywed canu Salmau mydryddol, a dod i ganu Salmau mydryddol Saesneg yn eu gwasanaethau hwy, gwaith y beirdd Thomas Sternhold a John Hopkins.


Yn 1562, ar ôl esgyniad Elisabeth i orsedd Lloegr, cafwyd y Sallwyr mydryddol Saesneg cyflawn cyntaf, gwaith Sternhold a Hopkins yn bennaf. Fe gafwyd dros 800 argraffiad o'r gwaith hwn i gyd, ond beirdd digon symol oedd Sternhold a Hopkins: 'they had drank more of Jordan than of Helicon,' meddai un beirniad!

Yn 1559 rhoddodd Elisabeth ganiatâd i ganu Salmau mydryddol ar ddechrau ac ar ddiwedd y gwasanaethau eglwysig. Ond er i William Salesbury gyfieithu'r Salmau i'r Gymraeg yn 1567, nid oedd mydryddiad Cymraeg ar gael i'r eglwysi. Aeth sawl bardd – Siôn Tudur, Siôn Phylip, David Johns, a William Midleton – ati i fydryddu'r Salmau mewn cynghanedd, ond ymarferion llenyddol oedd eu hymdrechion hwy yn bennaf, nid Salmau i'w canu gan gynulleidfaoedd. Aeth James Parry ac Edward Kyffin ati i fydryddu'r Salmau ar fesurau rhydd, ond yr oedd mydryddiad Parry yn rhy dafodieithol i'w fabwysiadu yn yr eglwysi, a chyn gorffen argraffu'r 50 Salm a luniodd Kyffin fe fu farw o'r pla yn Llundain yn 1603 ac fe gollwyd y rhan fwyaf o'i waith. Yr oedd sôn fod Edmwnd Prys wrthi yn llunio Salmau Cân mor gynnar â 1610, ond ni chyhoeddwyd ei waith tan 1621 pan oedd Prys erbyn hynny bron yn bedwar ugain oed. Campwaith ei henaint oedd y Salmau Cân.


Yr oedd Prys yn un o feirdd cynganeddol gorau ei oes, ond fe ymwrthododd â'r gynghanedd yn ei Salmau Cân, er mwyn cadw'n ffyddlon at ystyr y Salmau, er mwyn cynhyrchu fersiwn y gallai cynulleidfaoedd ei ganu, ac oherwydd y byddai penillion ar fesur rhydd yn haws i gynulleidfaoedd eu dysgu na cherddi caeth. Ar wahân i bump o'r Salmau, y mesur 8,7,8,7 a ddefnyddiodd Prys. Ymhlith yr eithriadau yr oedd Salm 100 lle defnyddiodd y mesur 8,8,8,8. Gellid canu'r mesur hwnnw ar y dôn wych a adwaenwn ni fel yr 'Hen Ganfed': yn yr achos hwn, poblogrwydd y dôn ar gyfer Salm 100 yng ngwasanaethau Eglwys Loegr a bennodd y mesur a ddewisodd Prys. Gyda Salmau Prys fe argraffwyd 12 o donau: y Salmau Cân oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i gynnwys cerddoriaeth.

Yr oedd Prys wedi astudio Hebraeg ym Mhrifysgol Caergrawnt ac arferid credu iddo gyfieithu'r Salmau yn syth o'r iaith honno. Ond dangosodd yr ysgolhaig Beiblaidd Dr Isaac Thomas yn 1978 mai mydryddu Salmau William Morgan o Feibl 1588 a wnaeth Prys yn bennaf, er iddo droi hefyd weithiau at Salmau William Salesbury yn Llyfr Gweddi Gyffredin 1567.

Yr oedd gan Prys gyflawnder o adnoddau Cymraeg ac fe gyfrannodd hyn at lwyddiant y Salmau yn eu dydd a'u cyfnod. Gallai dynnu ar gyfoeth Cymraeg y beirdd a hefyd ar eirfa iaith lafar rywiog ei oes. Yn anorfod, fe aeth peth o'i eirfa yn ddieithr i oesoedd diweddarach (digwyddodd yr un peth yn achos Salmau mydryddol Ffrangeg Marot a Beza). Ond rhaid pwysleisio mor eithriadol boblogaidd fu'r Salmau Cân. Fe gyhoeddwyd 122 argraffiad ohonynt rhwng 1621 a 1889.



Cerflun o Edmwnd Prys
ar gofeb cyfieithwyr y Beibl,
Eglwys Gadeiriol Llanelwy
(Ilun: Llywelyn2000)



Llyfr y Psalmau,

WEDI EV CYFIEITHV, A'I CYFANSODDI AR FESVR CERDD, YN GYMRAEG.

DRWY WAITH EDMWND PRYS ARCHDIACON MEIRIONNYDD,

A'I PRINTIO YN LLYNDAIN.

Wynebddalen cyfrol Salmau Cân
Edmwnd Prys, 1621

I'n hatgoffa o gamp Edmwnd Prys, dyma ei fydryddiad o Salm 23 fel y'i cyhoeddwyd yn 1621. Fe welwch fod mân wahaniaethau mewn ambell linell rhagor fersiwn yr hen lyfr emynau (trueni na chynhwyswyd y Salm hon yn *Caneuon Ffydd*). Yn nyddiau Edmwnd Prys, wrth ganu fe gymerai'r dôn aceniad y geiriau. Pan ddaeth cerddoriaeth yn fwy rheolaidd, fe dacluswyd ambell linell gan olygyddion llyfrau emynau er mwyn gwneud eu canu'n haws:

Yr Arglwydd yw fy 'mugail clau,
  ni âd byth eisiau arnaf:
Mi a gaf orwedd mewn porfa frâs
  ar lan dwfr gloywlas araf.

Fe goledd f'enaid, ac a'm dwg
  rhyd llwybrau diddrwg, cyfion:
Er mwyn ei Enw mawr dilŷs
  Fo'm tywys ar yr union.

Pe rhodiwn (nid ofnwn am hyn)
  yn nyffryn cysgod angau,
Wyd gyda mi, a'th nerth, a'th ffon:
  ond tirion ydyw'r arfau:

Gosodaist fy mwrdd i yn frâs,
  lle'r oedd fy nghâs yn gweled:
Olew i'm pen, a chwppan llawn;
  daionus iawn fu'r weithred.

O'th nawdd y daw y doniau hyn
  i'm canlyn byth yn hylwydd
A minnau a breswyliaf byth
  a'm nŷth yn nhy yr Arglwydd.

*Gruffydd Aled Williams*

# Cofio Hans Küng




Ddechrau mis Ebrill fu farw'r diwinydd enwog Hans Küng yn 93 mlwydd oed. Yn ddiau, ef oedd un o ddiwinyddion mwyaf adnabyddus yr ugeinfed ganrif. Hanai o'r Swistir, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd academaidd ym Mhrifysgol Tübingen yn yr Almaen. Offeiriad Catholig ydoedd ar hyd ei yrfa, er iddo golli'r hawl i ddarlithio yn y gangen Gatholig o'r Gyfadran Ddiwinyddol yno wedi iddo herio'r athrawiaeth am anffaeledigrwydd y Pab. Y Pab ar y pryd oedd y Pwyliad Ioan Paul yr Ail, a phennaeth newydd y Cynulliad i Amddiffyn y Ffydd (yr hen Chwilys) oedd Josef Ratzinger, a fu'n gyd-ddarlithydd ag ef yn Tübingen. Ymhen blynyddoedd fe'i hetholwyd yntau'n Bab, yn dwyn yr enw Bened XVI.

Yr athrawiaeth am gyfiawnhad oedd prif astudiaeth ei ymchwil gynnar: dyma'r athrawiaeth, wrth gwrs, a oedd yn graidd y ddadl rhwng y Diwygwyr Protestannaidd, yn arbennig Martin Luther, a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Canolbwyntiodd Küng ei sylw yn arbennig ar ddehongliad Karl Barth ohoni; ef, yn ôl un Pab, oedd diwinydd mwyaf yr ugeinfed ganrif. Bu Küng a Ratzinger yn gynghorwyr i'r esgobion yn ystod Ail Gyngor y Fatican a gyfarfu yn 1962: gobaith Küng oedd y byddai'r Cyngor yn chwyldroi llawer o athrawiaethau a threfniadau'r Eglwys Babyddol. Ond fe'i siomwyd yn ddirfawr gan yr hyn a ystyriai yn arafwch, onid yn wir yn gyndynrwydd, awdurdodau'r eglwys i fabwysiadu'r newidiadau angenrheidiol. Ymhen amser cefnu ar syniadau o'r fath wnaeth Ratzinger, gan fabwysiadu safbwyntiau hynod geidwadol, onid adweithiol.

Cyhoeddodd Küng 70 o lyfrau, ac mewn nifer ohonynt anelodd at gyrraedd cynulleidfa eang, ac yn ddiau llwyddodd yn hynny. Er enghraifft, astudiwyd ei gyfrol *On Being a Christian* (1976) gan nifer fawr iawn: coffa da gennyf am y trafodaethau bywiog a ysgogodd mewn ffraternal o weinidogion y cylch hwn ddeugain mlynedd yn ôl. Yn ddiweddarach, canolbwyntiodd ar greu ymwybyddiaeth o'r angen am foesoldeb a fyddai'n gyffredin i grefyddau mawr y byd. Ac ynghlwm wrth hynny ymgyrchai dros fudiadau i ddiogelu'r bydysawd. Dyna'n wir oedd ei neges yn y gyfrol *Global Responsbility* (1991), y lluniwyd cyflwyniad iddi gan y Tywysog Philip a fu farw yn yr un cyfnod ag ef. Credai Küng nad gwybodaeth am y ffeithiau ynglŷn â newid hinsawdd a fyddai'n debyg o ysgogi pobl i ymgyrchu dros yr achos hwn, ond yn hytrach ymlyniad wrth egwyddorion crefyddol a moesol cyffredin.

Yn 1999 anrhydeddwyd Küng gan Brifysgol Cymru â gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth ac fe'i derbyniodd yn Abertawe. Yr adeg honno hefyd daeth i Goleg Llambed i draddodi darlith ar destun y gyfrol uchod. Cefais y fraint o'i gyfarfod ar yr achlysur hwnnw, a chofnododd ei enw yn fy nghopi o un o'i gyfrolau mwyaf swmpus – *Does God Exist?* (1980), gyda'r dyddiad 26 Mawrth 1999.


HANS KÜNG

Does God Exist?

*An Answer for Today*

Translated by Edward Quinn

*John Tudno Williams*

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Cynhaliwyd Sasiwn Chwiorydd y De eleni, dros Zoom, ddydd Iau, 20 Mai, am 2 o'r gloch.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Llywydd, y Parchedig Lona Roberts, Caerdydd, ac i annerch gwahoddwyd yr Athro E. Wyn James, Caerdydd. Dewisodd destun priodol iawn i'r Sasiwn Genhadol, sef 'Pedr Fardd a'i Weledigaeth Genhadol'.

Er mai Sasiwn rithiol, wahanol iawn i'r arfer, a gafwyd eleni, bu'n hynod fendithiol, ac roedd nifer dda iawn o chwiorydd ffyddlon wedi gallu ymuno o'u cartrefi trwy gyfrwng Zoom.

Canwyd emyn Pedr Fardd 'Cyn llunio'r byd' gan Mair Long, Caerdydd, a chafwyd darlleniadau gan Bethan Richards, Abertawe, a Nans Couch, Y Crwys. Cafwyd datganiad o'r emyn 'Hyfryd lais efengyl hedd' gan Gareth Rhys Davies, eto o'r Crwys.

Pedr Fardd (1775–1845) yw trydydd emynydd pwysicaf Cymru, a'i ddyhead cenhadol i ledaenu'r efengyl ledled y byd yw prif fyrdwn ei ganu. Fe'i ganed yn Eifionydd, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn Lerpwl a'i godi'n flaenor yn eglwys Pall Mall. Fel ei dad, teiliwr oedd wrth ei alwedigaeth ac yn athro yn ddiweddarach yn ei fywyd. Ym 1830 cyhoeddwyd cyfrol o'i emynau gydag adran o emynau cenhadol sy'n llawn hyder a sicrwydd y bydd i'r efengyl Gristnogol ledaenu a llwyddo ar draws y byd.




Cyflwynodd Sarah Morris y llyfryn, *Myfi yw'r Bugail Da,* at wasanaeth y chwiorydd a Molly Thomas, y trysorydd, y casgliadau o'r eglwysi yn £7,500. Estynnwyd croeso i Sasiwn 2022 ar 19 Mai yn eglwys y Gopa, Pontarddulais, gan Anna Derrick.

*Ina Tudno Williams*

## *Yn d'ymyl Di*

Pan dyr y wawrddydd draw dros y bryn gyda'i goleuni clir,
A'r dydd yn agor heddiw o'm blaen
Teimlaf dy law yn f'arwain.

Pan ddaw pelydrau disglair yr haul eto i loywi'r tir
Yn heulwen gynnes canol y dydd
Teimlaf dy obaith ynof.


Pan ddaw y machlud derfyn dydd eto ar orwel pell,
Wrth gau amrannau, ildio i gwsg,
Teimlaf dy bresenoldeb.

Pan ddaw goleuni llusern y nos eto i oleuo'r nen,
A'r byd yn dawel, popeth ynghwsg,
Teimlaf dy ofal drosof.

*Cytgan*:
Rwyt Ti bob amser gyda mi,
Gyfaill, beth bynnag ddaw,
O gad im gerdded gyda Thi,
Dilyn yn ôl dy lwybrau.

(addas. Margaret Edwards)

Un o gerddi *Gair o Gysur*, a olygwyd gan Elin Angharad Davies. Cyfrol hardd o eiriau a delweddau sy'n cynnig cysur i'r rhai sy'n galaru, neu sy'n wynebu cyfnod anodd yn eu bywyd. Deilliodd o brofiadau Elin Angharad Davies a'r dudalen Facebook 'Gair o Gysur' a grëwyd ganddi. Mae'n cynnwys cerddi gwreiddiol o'i gwaith hi ac eraill, ynghyd ag addasiadau o gerddi a dyfyniadau o ganeuon poblogaidd. Cyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn; pris: £9.



# *Cenn@d*

Mae cyhoeddiad wythnosol newydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn cynnwys newyddion o'r eglwysi, myfyrdodau, adolygiadau o lyfrau, yn ogystal ag erthyglau ar bynciau'r dydd.


Cenn@d

Ffwtbol a Ffydd

Yn rhifyn 15 (9 Mehefin) roedd Aled Davies yn holi 'Beth yw hanes y plant?' Mae ei sylwadau'n canolbwyntio ar y ffaith nad yw wedi bod yn bosib cynnal gweithgareddau arferol yr ysgolion Sul yn ystod y 15 mis diwethaf. Ac yn rhifyn 16 (16 Mehefin) mae'n cynnig nifer o syniadau ymarferol sut i ailgysylltu â'r plant a'u teuluoedd. Yn y rhifyn hwnnw hefyd ceir gwybodaeth ddiddorol am y cysylltiad rhwng 'Ffydd a Ffwtbol', gan holi a ddylid gwneud mwy i geisio adfer y cyswllt agos a fu rhwng eglwysi a phêl-droed yn y gorffennol.

Mae *Cenn@d* ar gael i'w ddarllen – yn rhad ac am ddim – ar wefan www.cennad.cymru.

Gallwch hefyd gael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy ddilyn *Cenn@d* ar y cyfryngau cymdeithasol: Facebook a Trydar @CennadCymru.

Os hoffech drefnu i gael copi digidol o *Cenn@d* drwy e-bost bob wythnos, neu gael copi print drwy'r post, cysylltwch ag Ysgrifennydd eich eglwys, a fydd yn gallu trefnu i chi dderbyn copi yn syth o'r Swyddfa yng Nghaerdydd.

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Ina Tudno Williams, Capel Seion

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,

Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE

(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **12 Medi** i'r golygydd:

Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street

01970 828662; marian_hughes@btinternet.com